

DEDDF YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU) 2017

Beth mae'r Ddeddf yn ei wneud?

Mae Deddf yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 (y Ddeddf) yn gymwys i gyrrff cyhoeddus datganoledig ac i undebau llafur o fewn gwasanaethau cyhoeddus a gyflenwir gan gyrrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'n golygu bod y darpariaethau isod yn y Trade Union Act 2016 (Deddf 2016), a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU ac a basiwyd gan Senedd y DU, wedi'u datgymhwysu yn achos y cyrrff cyhoeddus datganoledig hynny.

- gofyniad i gyrraedd trothwy o 40% o'r bleidlais cyn y caiff gweithwyr a gyflogir mewn gwasanaethau cyhoeddus 'pwysig' weithredu'n ddiwydiannol;
- gofyniad i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus gyflwyno trefniadau i fonitro faint o amser a dreulir ar amser cyfleuster (yr amser a dreulir ar waith undebau llafur) a phŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfyngu ar amser cyfleuster;
- amodau'n ymwneud â phryd y ceir didynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau.

Mae darpariaeth yn y Ddeddf hefyd sy'n gwahardd cyrrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle'u gweithwyr arferol yn ystod gweithredu diwydiannol. Mae cyfraith yn bodoli eisoes sy'n gwahardd asiantaethau rhag cyflenwi gweithwyr i weithio yn lle'r gweithwyr arferol, ond mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn bwriadu diddymu'r gyfraith honno.

Mae cyrrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru yn cynnwys y GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, ysgolion, gwasanaethau tân a Chyrrff yng Nghymru a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Nid yw'r Ddeddf yn datgymhwysu darpariaethau yn Neddf 2016 mewn perthynas â gwasanaethau a ddarperir gan gontractwr i gorff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Trothwy o 40% o'r bleidlais o blaid gweithredu diwydiannol

Nid yw'n ofynnol i undebau llafur sy'n cynrychioli gweithwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gydymffurfio â'r trothwy o 40% o'r bleidlais a bennir yn y Trade Union Act 2016.

Mae'r trothwy o 40% o'r bleidlais yn Neddf 2016 yn gymwys i 'wasanaethau cyhoeddus pwysig' sy'n cael eu diffinio mewn rheoliadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol ac sy'n cynnwys iechyd, addysg ar gyfer pobl o dan 17 oed, a Gwasanaethau Tân. Mae'r Ddeddf a gyflwynwyd yng Nghymru yn darparu nad yw 'gwasanaethau cyhoeddus pwysig' yn cynnwys cyrrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r cyfyngiad arall yn Neddf 2016, sy'n pennu trothwy lle mae gofyn i 50% o'r aelodau gymryd rhan mewn pleidlais ar weithredu diwydiannol, yn gymwys i gyrrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ac i bob gweithle arall yng Nghymru.

Trefniadau i fonitro amser cyfleuster a phwerau i gyfyngu arno

Nid yw darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n ymwneud ag amser cyfleuster yn gymwys i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae darpariaethau yn Neddf 2016 sy'n rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus fonitro ac adrodd ar faint o amser a dreulir ar amser cyfleuster. Mae'r darpariaethau hefyd yn rhoi'r pŵer iddo gyfyngu ar yr amser a dreulir. Ni fydd gofyn i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru gydymffurfio â'r trefniadau monitro hyn ac ni fydd unrhyw gyfyngiadau yn eu hachos hwy.

Mae'r Ddeddf a gyflwynwyd yng Nghymru yn cadw'r trefniadau sy'n bodoli eisoes ar gyfer darparu amser cyfleuster. Mae cyflogwyr yn y sector cyhoeddus ac undebau llafur cydnabyddedig wedi trafod a chytuno ar yr amser cyfleuster a ganiateir ac mae cyrff cyhoeddus yn rhoi'r amser hwnnw i'r undebau.

Didynnu taliadau tanysgrifio i undebau drwy'r gyflogres

Nid yw'r ddarpariaeth yn Neddf 2016 sy'n pennu amodau o ran pryd y ceir didynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau yn gymwys i gyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru.

Mae Trade Union Act 2016 Llywodraeth y DU yn gosod amodau ar ddidynnu taliadau aelodaeth undebau llafur o'r gyflogres mewn cyrff yn y sector cyhoeddus. Mae'r darpariaethau'n golygu bod yn rhaid i undebau llafur ad-dalu swm rhesymol i'r corff sector cyhoeddus am y costau sy'n dod i ran y corff hwnnw wrth weinyddu trefniadau i ddidynnu taliadau aelodaeth undebau llafur o gyflogau. Mae'r darpariaethau'n pennu hefyd fod yn rhaid i'r undeb llafur ddarparu ffordd arall o dalu taliadau tanysgrifio i'r undeb.

Mae'r Ddeddf a gyflwynwyd yng Nghymru yn datgymhwyso'r darpariaethau hynny, gan gadw at drefniadau sy'n bod ers tro rhwng yr undebau llafur a chyflogwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru ar gyfer didynnu taliadau tanysgrifio i undebau o gyflogau.

Gweithwyr asiantaethau a streicio

Mae'r Ddeddf a gyflwynwyd yng Nghymru yn gwahardd cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru rhag defnyddio gweithwyr asiantaethau yn lle'r gweithwyr arferol yn ystod gweithredu diwydiannol.

O dan reoliadau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU, ac sy'n bodoli ers tro, mae busnesau cyflogaeth (yn fras, busnesau sy'n cyflenwi gweithwyr asiantaeth dros dro) yn cael eu gwahardd ar hyn o bryd rhag gweithio yn lle'r gweithwyr arferol yn ystod gweithredu diwydiannol.

Wrth iddi ymgynghori ar Fil yr Undebau Llafur, fel yr oedd ar y pryd, yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynigion hefyd i ddiddymu'r Rheoliad uchod ac i ganiatáu defnyddio gweithwyr asiantaethau yn ystod gweithredu diwydiannol. Hyd

yma, nid yw Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad hwnnw.

Mae'r Ddeddf a gyflwynwyd yng Nghymru yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus datganoledig yn y sector cyhoeddus i beidio â defnyddio gweithwyr asiantaethau i weithio yn lle gweithwyr sy'n gweithredu'n ddiwydiannol. Y bwriad yw diogelu'r trefniadau presennol os bydd Llywodraeth y DU, rywbryd yn y dyfodol, yn dewis diddymu'r Rheoliadau perthnasol.

Nid yw'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â defnyddio gweithwyr asiantaethau o dan amgylchiadau heblaw eu defnyddio yn lle gweithwyr arferol sy'n gweithredu'n ddiwydiannol.